

DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 122

CHWEFROR
1986

GWARTH Y GWEISG

HYSBYSEBWYD cyfrol barddoniaeth ddiweddaraf Menna Elfyn, "Mynd Lawr i'r Nefoedd" fel un o "lyfrau Dolig Gomer". Serch hynny, doedd dim modd prynu'r gyfrol yn un o siopau Cymraeg Caerdydd tan yr ugeinfed o Ionawr.

Bu'r gyfrol yn nwylo'r cyhoeddwy, Gwasg Gomer, ers bliwyddyn ac fe'i cyhoeddwyd gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Anodd felly yw ceisio dirnad unrhyw gyfiawnhad dros y fath alanas wrth gyhoeddi.

Argarffwyd a rhwymwyd y gyfrol yn fuan cyn y Nadolig, a hysbysebwyd y gyfrol yng nghylchgrawn y Cyngor Llyfrau Cymraeg "Llais Llyfrau" yn ogystal ag ar raglen "Hylo Bobol", pryd y cyfweirwyd a'r awdures. Anfonwyd posteri i'r siopau gan y wasg ymhell cyn y Nadolig.

Fel y rhelyw o lyfrau Cymraeg dosbarthwyd y gyfrol i'r siopau Cymraeg gan y Cyngor Llyfrau. Ond hyd at 9 Ionawr roedd y llyfrau'n dal i sefyll yng Ngwasg Gomer yn Llandysul. Ar y dydd lau hwnnw aethpwyd a nhw i'r Ganolfan Llyfrau yn Aberystwyth, ond ysywaeth roedd yn rhy hwyr iddynt gael eu dosbarthu'r wythnos honno ar daith wythnosol cerbydau'r Cyngor.

Fe'i dosbarthwyd felly yr wythnos ganlynol, ac mae'n siwr bod copïau wedi bod ar gael mewn siopau llyfrau mewn rhai rhannau o Gymru o leiaf yr wythnos honno. Ond bu'n rhaid i ddarpar-ddarllenwyr y Brif-Ddinas aros tan ddydd Llun 20 Ionawr cyn gallu prynu'r gyfrol.

Enghraifft yw hwn o gyhoeddi un llyfr gan un o weisg Cymru. Nid yw'n anghyffredin o bell ffordd. Er i nofel ddiweddaraf Marlon Eames "Seren Gaeth" gyrraedd y siopau cyn y Nadolig prin y geflid dweud fod y sylw a gafodd yn deilwng o un o brif ddigwyddiadau'r byd cyhoeddi Cymraeg.

Ar y rhaglen deledu "Llun Llyfrau" dywedodd Eurig Wyn, perchennog Siop y Pentan yng Nghaernarfon, iddo dderbyn wyth o lyfrau Cymraeg newydd ar 19 Rhagfyr.

Y gwir amdani yw bod ein cyhoeddwy'r yn ennill eu bara a'u caws trwy argraffu, ac yn dibynnu ar gymorth-daliadau oddiwrth Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg i dalu am gyhoeddi llyfrau Cymraeg. Ychydig o ymdrech felly sy'n mynd i mewn i farchnata.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 1984/85 derbyniodd Gwasg Gomer gyfanswm o £67,800 o gymorthdaliadau gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg. Mae'r wasg hefyd yn derbyn symiau sylweddol o arian am argraffu cylchgronnau megis Planet a Llais Llyfrau sy'n deillio o'r pwr cyhoeddus.

Mae gennym dystiolaeth hefyd o gam-ddefnydd cymorthdal gan un o'n gweisg a dderbyniodd £4,000 gan y Cyngor Llyfrau i gyhoeddi 1,500 o gopïau o nofel newydd, ond a argraffodd llai na mil o gopïau.

Gan fod gennym ddau gorff cenedlaethol sy'n dosbarthu cyllid ym myd cyhoeddi y duedd yw i'w collfarnu nhw am bob gwendid. Ond ni wnaiff hynny mo'r tro. Mae yna gyfrifoldeb ar y gweisg - yn enwedig pan yn derbyn arian cyhoeddus - i wneud defnydd cyfrifol ohono. Mae hynny'n cynnwys ceisio gwerthu llyfrau, yn ogystal a'u hargraffu.



MYND LAWR I'R NEFOEDD
Menna Elfyn

Cyfrol newydd o gerddi gan ferdd dogfwr. Dyna o'fali i'r gyfrol "Dolig Gomer" ac fe'i ger yna hefyd yn un canu gwir, pafog, deys a symi sy'n nodweddau cerdd Menna Elfyn. Mae yna gerdd i apellu ar

LLAIS Y DURTUR
Pennar Davies

Peth braf yw cael caelgud o stramen byrrau a neis ydyddig nhw ar wostol a anaf. Yng nghastiad Pennar Davies ceir amgylchedd o stramon, rhai yn ddoniol-ysgafn, eraill ar noedyn may syfer. Mae yna gŵd-dedun cryfystool i lawer iawn choron nhw, ac arddull

Prin yw'r cyhoeddwy'r sy'n ymdrechu'n ddifrifol i farchnata llyfrau Cymraeg. Saif Lolfa Robot Gruffydd ben ac ysgwyddau uwchben y gweddill. Mae gan y cwmni gatalog cyflawn o'i gyhoeddiadau sy'n cael ei ddiweddarau'n gyson yn ogystal a swyddog marchnata - yr unig un o'i fath yng Nghymru. Mae'r Lolfa hefyd yn derbyn arian cyhoeddus oddiwrth y Cyngor Llyfrau, ond fel sail, ac nid diben, i'w gwaith cyhoeddi.

O ystyried costau argarffu modern prin y gallai neb ddadlau gydag argyhoeddiad fod yna ormod o arian cyhoeddus yn cael ei wario ar gyhoeddi yng Nghymru. Ond y cwestiwn sy'n rhaid ei ofyn yw a ydyw'r arian yna yn cael ei wario fel ag y ddylai.

Gan mai'r Swyddfa Gymreig yw ffynhonnell y cyllid yna gall wneud cymwynas a'r byd cyhoeddi Cymraeg. Galwn ar yr Ysgrifennydd Gwladol, Nicholas Edwards A.S., i sefydlu, fel mater o frys, ymchwiliad i gyhoeddi yng Nghymru, a fyddai, ar ol derbyn tystiolaeth gan awduron, cyhoeddwy'r, argraffwy'r ac yn bwysicach na neb yn y pendraw, efallai, y llyfrwerthwyr a'r darllenwyr, yn cyflwyno argymhellion a fyddai'n sail i bolisi cyhoeddi cynhwysfawr newydd.

Yn y cyfamser, gall y gweisg eu hunain roi eu tai mewn trefn, a sicrhau bod awduron, darllenwyr a siopau fel ei gilydd, yn derbyn gwassanaeth o'r safon y maent yn eu haeddu.

Rhieni'n anfonlon

MEWN CYFRES o gyfarfodydd ym mis Ionawr mae rhieni ysgolion Cymraeg De Morgannwg wedi datgan eu gwrthwynebiad unfrydol i gynlluniau Awdurdod Addysg De Morgannwg i rannu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, rhwng dwy safle.

Roedd y rhieni wedi'u gwahodd i'r gyfarfodydd gan yr Awdurdod Addysg - a hynny trwy lythyr uniaith Saesneg - ond roedd pob un o'r gyfarfodydd wedi mynegi gwrthwynebiad i gynlluniau'r Cyngor.

Yn ystod y pythefnos nesaf bydd swyddogion mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn yr wyth cymdeithas yn Ne Morgannwg yn arwyddo deiseb ac yn cyflwyno eu gwrthwynebiad i'r cynllun i'r swyddfa Gymreig. Bydd y mater wedyn yn nwylo Nicholas Edwards.

Ond tra roedd rhieni De Morgannwg yn dadlau am y dyfodol, roedd pwyllgor Datblygu a Chyllid Awdurdod Addysg Morgannwg Ganol yn trafod adroddiad yn argymhell sefydlu pedwerydd ysgol gyfun Gymraeg yn y Porth yn y Rhondda. Roedd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg hefyd yn sôn am yr angen i gynllunio gogyfer â'r dyfodol yn wyneb y cynnydd diamheuol yn nifer y plant oedd yn dymuno addysg Gymraeg.



TU MEWN

Coffáu Mansel Thomas
Trefnydd Newydd i'r Gymdeithas
Adolygiadau
Gŵyl Ffilmiau Chapter

Tud.3
Tud.4
Tud.8
Tud.10

GOLYGYDDOL

MAE'N SIWR bod pob trethdalwr yn Ne Morgannwg yn gwybod erbyn hyn am fwriad y grwp Llafur sy'n llywodraethu'r Cyngor Sir i gynyddu'r trethi o bron i wyth ar hugain y cant - cynnydd o ddeugain ceiniog yn y bunt a fydd yn codi bil trethi o £225 i £300.

A rhag ofn bod rhywrai yn byw mewn gobaith gan mal argymhellad yn unig yw hyn, gallwch fod yn berffaith sicr mai dyna a ddigwydd pan ddaw hi'n fater o osod y dreth mewn cyfarfod o'r cyngor llawn ar 27 Chwefror.

Prin y bydd unrhywun sy'n talu trethi yn croesawu cynnydd o'r maintloli yma, ond o ystyried y ffeithiau hawdd iawn yw deall dadleuon y cynghorwyr a chyfiawnhau eu penderfyniad.

Yn ôl yr Ysgrifennydd Gwladol, Nicholas Edwards, ni ddylai cynghorau Cymru godi'r trethi yn fwy na lefel honedig chwyddiant - sydd gryn dipyn yn llai na 28%. Ond pe byddai'r cynghorwyr yn ufuddhau i'r gorchymyn byddai holl wasanaethau'r sir yn gorfod dioeddef toriadau enbyd. Fel ag y mae, mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf ond yn anelu at gadw'r ddisgl yn wastad.

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf mae'r cyngor yn bwriadu gwarlo rhyw £155 miliwn, cyfanswm a gytunir gan y Swyddfa Gymreig fel un priodol:

Addysg	60%
Yr Amgylchedd	10%
(cynllunio, priffyrdd ac ati)	
Pwyllgor Polisi	9%
(yr heddlu)	
Gwasanaethau Cymdeithasol	14%
Amddiffyn y Cyhoedd	4%
(brigad dan, safonau masnach)	
Llyfrgelloedd	2%
Datblygu Diwydiannol	1%

Ond yr hyn sy'n achosi problemau yw penderfyniad De Morgannwg i glustnodi £7 miliwn ar gyfer cyflogau a chwyddiant a £1m i'w ddychweilyd i'r cronfeydd wrth gefn a waghawyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

O ganlyniad fe'u cosbir gan y Swyddfa Gymreig, ac mi fydd yn rhaid i'r cyngor ad-dalu 13c yn y bunt i'r llywodraeth am gael y fraint o "or-wario".

Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol am inni gredu mai'r cynghorwyr sy'n ymddwyn yn anghyfrifol, ond mewn gwirionedd ei lywodraeth ef sy'n gyfrifol am drafferthion ariannol De Morgannwg a'r rhelyw o'n hawdurdodau lleol. Mewn cyfnod o bedair mlynedd mai cymorth ariannol y llywodraeth ganolog wedi gostwng o 51% i 41% a hynny er mwyn diogelu dogma arianyddol y Toriaid. Canlyniad anochel hynny yw cwtogi ar wasanaethau cyhoeddus o bob math.

Oni bai am godiad sylweddol yn y trethi byddai'n rhaid i'r Cyngor Sir gwtogi unwaith eto ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau. Byddai'n rhaid diswyddo athrawon, a chyfyngu'm sylweddol ar wariant ar y gwasanaethau cymdeithasol. Byddai'n rhaid gwneud hyd yn oed llai o waith atgyweirio ar y ffyrdd ac ar adeiladau'n hysgollion nag a wneir yn awr.

Mae'r cynghorwyr yn gwybod yn iawn am y baich y byddant yn ei osod ar ysgwyddau'r trethdalwyr - ond os ydym yn poeni am safonau'n gwasanaethau cyhoeddus dylwn eu cefnogi i'r carn.

DYLLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Chwefror at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn CHWEFROR 13.

DIOLCH am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

Y CALENDR

DYLLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816

CHWEFROR

- Theatr Sherman
Go Fflamia - Pantomeim
2.30 a 7.00
- Ciwb Ifor Bach
Manna & Y Ficar
- Ciwb Ifor Bach
Ffenestri
- Plaid Cymru, Cangen Llandaf
Ysgol Cantonian 7.30
Peter Keelan: Democratiaeth
Undebaeth Lafur ym Mholisiau'r
Blaid.
- Cymrodorion Caerdydd
Festri Ebenezer
Darlith gan T.J.R.Jones
Cadeirydd: Y Parch. Leslie Evans
- Neuadd Pentyrch
Bara Caws yn cyflwyno "Cwllwm Pump"
Tocynnau: Nia Williams 8980979
- Ciwb Ifor Bach
Taith y Carcharorion
Maffia Mr.Huws & Geraint Jarman
- Chapter
Bara Caws yn cyflwyno "Cwllwm Pump"
- Ciwb Ifor Bach
Jim O'Rourke a'r Hoelion 8
- Merched y Wawr
Sain Ffagan - Arwyn Lloyd Davies
- Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Festri Capel Bethel, Heol Penline
Yr Eglwys Newydd 7.30
Gwyn L.Davies
- Cymdeithas y Dysgwyr
Tŷ'r Cymry 8.00
- Cymdeithas Minny St.
Noson dan ofal Seiriol Davies
- Ciwb Ifor Bach
Simon Fisher a'i Fand
- Ciwb Ifor Bach
Louis a'r Rocyrn
- Cymdeithas Wyddonol Caerdydd
Ciwb Ifor Bach 8.00
Gwefr Gwyddoniaeth yn Llanhari
Dr.Dafydd Ieuan Jones
- Ciwb Ifor Bach
Derec Brown a'r Racaracwyr
- Theatr Gorllewin Morgannwg
"Man a Man"
Ciwb Ifor Bach 8.00
Aelodau a phlant £1.50 Eraill £2.00

21 - Oriol, Heol Siarl
Darlleniadau barddoniaeth gan
Menna Elfyn & eraill

21 - Ciwb Ifor Bach
Wyn Lodwick a'i Fand Jazz

22 - Ciwb Ifor Bach
Noson dan ofal Cymdeithas yr Iaith

20 - Theatr Gorllewin Morgannwg
"Man a Man"
Ciwb Ifor Bach 8.00
Aelodau a phlant £1.50 Eraill £2.00

21 - Oriol, Heol Siarl
Darlleniadau barddoniaeth gan
Menna Elfyn & eraill

21 - Ciwb Ifor Bach
Wyn Lodwick a'i Fand Jazz

22 - Ciwb Ifor Bach
Noson dan ofal Cymdeithas yr Iaith

26 - Ciwb Ifor Bach
Simon Fisher a'i Fand

26 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Siaradwr: Havard Gregory


28 - Ciwb Ifor Bach
Loffa: Geraint Griffiths a'r Band
Neyadd: Y Brodyr

28 - Cymrodorion Caerdydd
Cinio Gŵyl Ddewi
Neuadd U.W.I.S.T.

MAWRTH

- Ciwb Ifor Bach
Llybr Cyhoeddus & eraill
- Plaid Cymru, Cangen Llandaf
Ysgol Cantonian 7.30
Ann Howells: Adran y Menywod:
Bendith neu felltith?
- Ciwb Ifor Bach
Ffenestri
- Cymdeithas Minny St
Cinio Gŵyl Ddewi
Gwestai: Y Parch. a Mrs. Meurwyn
Williams.
- Cymdeithas Gymraeg Bro Radur
Cinio Gŵyl Dewi
- Cymrodorion Caerdydd
Cyngerdd gan Ddisgyblion Ysgol Gyfun
Gymraeg Glantaf
Arweinydd: Alun Guy
Cadeirydd: Mrs.Susie Evans
- Ciwb Ifor Bach
Geraint Lovegreen a'r Enw Da
- Merched Y Wawr
Rhaglen nodwedd ar Kate Roberts
gan Kathleen Wood
- Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Festri Capel Bethel, Heol Penline
Yr Eglwys Newydd 7.30
Swper Gŵyl Dewi - Gŵr Gwadd:
Havard Gregory
- Cymdeithas y Dysgwyr
Tŷ'r Cymry 8.00
- Ciwb Ifor Bach
Pererin Trydan
- Cymdeithas Wyddonol Caerdydd
Ciwb Ifor Bach 8.00
Cryfder Concrit
Dr.Ben Barr, Adran Peirianeg Sifil
Coleg y Brifysgol, Caerdydd
- Ciwb Ifor Bach
John Grindell
- Urdd Gobaith Cymru
Eisteddfod Sir De Morgannwg
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
- Ciwb Ifor Bach
Cymdeithas yr Iaith

MANSEL THOMAS



PAN GLYWAIS am iarwolaeth fy hen ffrind Mansel Thomas aeth fy meddwl, yn rhyfedd iawn, yn ôl i'm mhientyndod yn y Rhos, Pam y Rhos? Wel, dyna lle y cwrddais i â Megan, a ddaeth wedyn yn wraig i Mansel. Arferai Megan a'i chwaer Ceri i ddod i'r Rhos o'r Porth yn y Rhondda bron bob haf i aros gyda'u modryb yno. Mater o amser oedd inni ddod at ein gilydd fel cerddorion, a chefais fwynhad mawr yn eu cwmmi yn chwarae triawdau, Megan ar y seilo a Ceri ar y ffidil. Coflaf iddynt sôn hefyd am ryw gerddor ifanc disgrair o'r Rhondda a'i enw oedd Mansel Thomas. Aeth ef wedyn i'r Academi Brenhinol a minnau i'r Coleg Brenhinol, ond rhaid i mi aros tan y flwyddyn 1935, pan apwyntiwyd ni'n dau ar staff y BBC, cyn i mi gwrdd ag ef.

'Roeddwn ni'n dau yn ffrindie mawr yn y BBC a chawsom hwyli a sbri gyda'n gilydd yn enwedig pan yn mynd allan i'r wlad i ddarlledu. Dyma'r cyfnod y daeth y rhaglen boblogaidd "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" i fod - Mansel yn arwain a fi wrth yr organ. Clywodd BBC Llundain am lwyddiant y rhaglen a chyn hir lluniwyd y rhaglen "Songs of Praise" wedi ei seilio ar "Dechrau Canu, Dechrau Canmol".

Yr oedd eisoes wedi gwneud enw iddo fo'i hun fel cyfansoddwr, a chredaf fod ei gân "Y Bardd", sy'n osodiad o rai o englynion Heddwyn gan R. Williams Parry, yn un o'r caneuon gorau gan unrhyw gyfansoddwr Cymreig. Ond wrth sôn am Mansel fel cyfansoddwr ni ddylem anghofio ei gyfansoddiadau diweddaraf sy'n dangos cryn ddatblygiad mewn techneg. Enghraifft dda o hyn yw ei "Four Songs from the Gaelic".

Gŵyr pawb am ei drefniadau i gorau meibion, ond gallaf eich sicrhau bod ei waith gwreiddiol "Gloria" i gorau meibion yn llawn mor gyffrous, ac anogaf ein corau i weithio'n galed i ddyysgu'r gwaith. Nid yw yn hawdd, ond dwy'n siwr y ceuch hwyli yn ei ganu ar ôl ei ddyysgu. Y cyhoeddwy'r yw Cwmmi Gwynn, Penygroes.

Ar ôl y rhyfel apwyntiwyd Mansel yn arweinydd Cerddorfa Cymreig y BBC. Yn y swydd hon aeth allan o'i ffordd i helpu cyfansoddwyr ifainc drwy berfformio eu gweithiau. 'Roedd yn bolisi gennym ar y pryd i ddarlledu nawr ac yn y man gyngerddau yn cynnwys cerddoriaeth newydd sbon. Cafodd amryw o gyfansoddwyr Cymreig eu cyfle cyntaf drwy gyfrwng y cyngherddau hyn, ac i Mansel y mae'r clod am feddwl yn greadd gol ynglŷn â chyfansoddwyr ifainc y cyfnod ar ôl y rhyfel.

Fel Pennaeth yr Adran Gerdd yn nes ymlaen dangosodd yr un brwdfrydedd dros gyfansoddwyr Cymreig a hefyd drwy annog cymdeithasau corawl.

Cofir ef, mi gredaf, fel cyfansoddwr yn llawn dychymyg, ac fel pensaer polisi cerddorol i Gymru trwy ddarlledu, a hynny pan oedd angen mawr am y fath hwb cerddorol yng Nghymru.

Arwel Hughes.

O FRYNGWRAN I SAN STEFFAN?

DEWISWYD y Cynghorydd Alun Michael i ymladd dros y Blaidd Lafur yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn yr etholiad nesaf. Daw'r sedd yn wag yn sgil ymddeoliad yr aelod seneddol presennol, y cyn Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus James Callaghan A.S.

Mae Michael, sy'n 42 mlwydd oed, ac yn enedigol o Fryngwran, Môn, yn Gymro Cymraeg. Mae'n byw gyda'i wraig a'u pump plentyn yn Rhiwbeina. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel ymgynghorydd cymunedol yn ardaloedd Butetown a Grangetown. Mae'n un o ynadon Dinas Caerdydd ac yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Gadeirydd Mainc yr Ifainc. Cyn hynny bu'n gweithio fel newyddiadurwr i'r South Wales Echo.



Mae Alun Michael eisoes yn adnabyddus fel cynghorydd dinas. Bu'n Gadeirydd pwyllgorau cynllunio a chyllid y cyngor ac ar hyn o bryd ef yw llefarydd yr wrthblaid Llafur ar faterion cyllidol.

Fe'i dewiswyd o restr fer o chwech - George Howarth, Judith James, Andrew Pithouse, Ivor Richard, y cyn Gomisiynydd Ewropeaidd, a'r cynghorydd sir Paddy Kitson.

Er i'r etholaeth fod yn ddiogel yn nwylo Llafur ers i Jim Callaghan ei ennill oddi wrth y Toriaid yn etholiad cyffredinol 1945 nid yw'n sedd hawdd i Lafur o bell ffordd. Yn yr etholiad diwethaf achosodd ymosodiad Jim Callaghan ar bolisi amddiffyn ei blaid ei hun rwygiadau dyfnion yn yr etholaeth, gyda nifer o selogion y blaid yn gwrthod canfasio drosto, ac roedd ei fwyafrif o 2,276 (5.4%) yr isaf ers iddo drechu'r diweddar Michael Roberts ym 1959.

De Caerdydd a Phenarth:
(etholaeth 59,520)

James Callaghan (Llaf.)	17,488
David Tredinnick (Ceid.)	15,172
Winston Roddick (Rhydd.)	8,816
Sian Edwards (Plaid Cymru)	673

Mwyafrif: 2,276

LLONGYFARCH

GRADDIO:

Llongyfarchiadau i Robert Sanger, Pennaeth adran Saesneg Ysgol Hafod y Waun ar ennill gradd M.A. Prifysgol Cymru am ei draethawd "Linguistic Disorder in the Novels of Charles Dickens".

LLYTHYRAU LLYTHYRAU LLYTHYRAU

Llwynceilyn,
Cefn Bychan,
Pentyrch.

Annywl Dinesydd,

Teimlais droeon mai gwastraff llwyr yw anfon cardiau Nadolig i bobl y medrwn yn hawdd eu cyfarch trwy rhyw ddull gwahanol. Sylweddolaf wrth gwrs y bydd llawer ohonom yn cefnogi rhyw fudiad neu elusen trwy anfon cardiau y mudiad hwnnw, ond hyd yn oed wedyn mae yn wastraffus tu hwnt, yn enwedig os anfonir y cardiau trwy'r post.

Gwn fod llawer o'm cyfeillion yn cytuno â mi ac rwy'n siwr fod nifer o bobl yn teimlo yr un fath. Ond beth ellir ei wneud? Onid syniad da fyddai i'r papurau bro gario cyfarchion tymhorol oddi wrth unigolion yn rhifyn y Nadolig? Byddai pob unigolyn, wrth reswm, yn talu am y faint a thrwy hynny yn cyfrannu at y papur, a byddai eu cyfeillion sy'n byw o fewn dalgylch y papur yn derbyn eu cyfarchion.

Tybed a fuasech chi a'ch pwyllgor yn ystyried y syniad ac efallai yn gofyn barn darllenwyr eraill. Rwy'n ffyddiog y byddai llawer ohonynt yn barod i'w gefnogi.

Yn bur,
Merfyn Griffiths

CLWB TŶ'R CYMRY

ELENI MAE Cwlb TŶ'r Cymry yn dathlu ei hanner can mlwyddiant. Eisoes mae'r swyddogion a'r aelodau yn paratoi rhaglen i nodi'r achlysur, ac mae'r pwyllgor yn awyddus iawn i sicrhau bod y cyn aelodau yn cael cyfle i ymuno â'r dathliadau. Fe gysylltiwyd â nifer o gyn aelodau yn barod, ond os ydych wedi bod yn aelod a heb dderbyn gwahoddiad, a wnewch chi anfon nodyn at bwyllgor TŶ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd, CF2 3AJ, ar fyrder. Mae nifer o ddatblygiadau pwysig ar y gweill a bydd angen cymorth llawer o bobl yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, bwriedir cyhoeddi hanes TŶ'r Cymru, ond anghyflawn yw'r ffeithiau, ac fe garem gael rhagor o wybodaeth am orffennol y tŷ.

Ar ran pwyllgor y tŷ,
Hywel Morris.

PENODI TREFNYDD NEWYDD



GWAITH I'R DI-WAITH

A ydych yn ddi-waith ar hyn o bryd? Neu a wyddoch am rywun arall a hoffai gael gwaith?

Ddiwedd Mawrth 1986 y mae Amgueddfa Werin Cymru yn gobeithio gweithredu un o Gynlluniau Creu Gwaith y Llywodraeth (Adran Gweithlu'r Gymuned, De Cymru). Gwneir cais am 3 pherson i weithio'n rhan-amser.

Prif amcan y Cynllun yw parhau'r gwaith sydd eisoes ar y gweill gennym yn yr Amgueddfa, sef dosbarthu defnyddiau llên gwerin ar gardiau, fel y bont o gymorth i ymchwilyr ac ar gyfer paratoi cyfres o gyhoeddiadau. Cynnwys y defnyddiau hyn storïau gwerin, traddodiadau, coellion, rhigymau, hwiangerddi, posau, a chlymau tafod.

Yn ôl amodau'r Cynllun rhaid i'r personau sy'n cynnig am y swydd fod wedi cofrestru'n ddi-waith am o leiaf 6 mis (12 mis os dros 25 mlwydd oed). Os oes diddordeb gennyh byddwn yn falch o gael rhoi unrhyw gyfarwyddyd pellach.

Robin Gwyndaf
Adran Bywyd Diwyllianol
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd CF5 6XB
0222 569411
(Cartref: 566249)

A ydych yn prododi eleni?

Ffotograffiaeth Creadigol gan

GWENAN

CAERDYDD 732233

Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.

MEWN CYFNOD o doriadau a chyfyngu ariannol mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi penodi trefnydd newydd i weithio yn Ne Cymru yn datblygu a hyrwyddo gwaith y Gymdeithas. Bu un trefnydd gan y Gymdeithas ers dwy flynedd bellach ac yn ystod y cyfnod yma mae'r gweithgarwch wedi cynyddu'n aruthrol.

Penodwyd Steffan Webb, 26 mlwydd oed, ac yn enedigol o Gaerdydd yn Drefnydd De Cymru. Graddiodd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth cyn mynd ymlaen i Goleg Bangor lle yr ennillodd dystysgrif ymarfer dysgu. Ers ddael y Coleg treuliodd gyfnod yn dysgu yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, ac y llynedd bu'n dysgu Hanes yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Bu Steffan yn aelod o'r Gymdeithas ers pum mlynedd, ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf bu'n Drefnydd Cell Caerdydd o'r Gymdeithas. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'r Gell yn arbennig o weithgar, ac mae'n brwydro'n galed iawn ar hyn o bryd dros gael cownteri Cymraeg yn y banciau a'r Swyddfa Bost.

Steffan oedd yn bennaf gyfrifol am drefnu'r Gynhadledd ar Addysg yn Ne Morgannwg ym mis Tachwedd lle y trafodwyd y problemau sy'n wynebu addysg Gymraeg yn y sir a'r ymgyrch dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.

Nod Steffan yw datblygu gwaith y Gymdeithas yn Ne Cymru ac addysgu'r cyhoedd ynglŷn â syniadaeth ac amcanion Cymdeithas yr Iaith. Felly os byddwch chi neu unrhywun gymdeithas rydych chi'n perthyn iddi am wybod mwy am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg, pam bod y Gymdeithas yn ymgyrchu dros Ddeddf Iaith Newydd, neu os byddwch chi am drafod cynllunio a'r iaith, twristiaeth ac yn y blaen, yna cysylltwch â Steffan. Bydd e'n gweithio o ddwy swyddfa, un yng Nghaerdydd - 11 Stryd Lochaber, Y Rhath a'r llall yng Nghaerfyrddin - 8 Heol Dŵr (0267 232052).

Mae Steffan yn fodlon gweithio'n galed iawn, felly cofiwch roi digon o waith iddo!

'NOL I HTV



PENODWYD Vince Flanagan, Prif Beiriannydd S4C, yn Brif Beiriannydd HTV. Bydd yn cychwyn yn ei swydd newydd fis nesaf.

Bu Mr Flanagan, sy'n 45 mlwydd oed, yn briod, ac yn byw yn Yr Eglwys Newydd, yn brif beiriannydd prosiect yn HTV tan Ionawr 1982 pan ymunodd â'r tîm bach oedd yr adeg honno yn paratoi lansio S4C ym mis Tachwedd 1982. Fe oedd yn gyfrifol am sefydlu canolfan drosglwyddo S4C yng Nghlos Sophia.

Fe'i ganwyd yn Lerpwl a daeth i Gymru am y tro cyntaf - i Sir Fôn - fel ifaciwl yn ystod y rhyfel. Erbyn heddiw mae'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Llongyfarchiadau calonnog iddo ar ei benodiad a phob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.

Y GWTER FAWR

NOS IAU, 2 Ionawr 1986, cynhaliwyd Gŵyl y Gwter Fawr a'r Cylch yn Neuadd Goffa Rhiwbeina.

Trefnwyd y noson gyda'r bwriad o ail-uno hen "blant" ardal Brynamam, a chael cyfle yr un pryd i godi ychydig o arian ar gyfer Gŵyl Ddrama yr Urdd a gynhelir yn y pentref, fis Hydref eleni.

Wedi swpera, cafwyd gwledd o adloniant unigryw ac arbennig yng nghwmni Rachel Thomas, Meurwyn Williams ac Islwyn Jones. Yn sgil llwyddiant y noson codwyd dros £200 tuag at yr Wyl.

Hoffai'r trefnyddion, Rhys a Gwenda Morgan ac Elisabeth a Brian Wales ddiolch i bawb a fu'n helpu a chyfrannu at llwyddiant y noson.

Yn sgil yr ymateb brwd a gafwyd i'r noson, gobeithir trefnu cymdeithas o alltudion Godre'r Mynydd Du yn y dyfodol. O.N. Os gadawyd ymbarel "Totes" coch, hufen a glas ar ôl yn y Neuadd Goffa, cysylltwch â Rhys Morgan: 693848.

Colofn Shân Emlyn



FEL ARFER mi fyddai'n sgwennu'r golofn hon ar un eisteddiad. Tydy hynny ddim yn bosibl y tro yma. Fy mwriad yw sgwennu adroddiad ar barti'r Dinesydd - ond tydio ddim wedi bod eto! Dyma eistedd i lawr bora 'ma tra bo galwyni o gawl cennin yn ffrwtian, rhoi tocynnau raffi mewn amleni a dyfalu pa anrhegion anerbynol gefais i'r Dolig 'ma gaiff fynd ar y bwrdd raffi! Rhaid meddwl yn galed a fydd rhai o roddwyr yr anrhegion hynny yn y Parti?

Gwneud rhestr faith - pwy arall sy'n gwneud cawl - siawns bod 'na ddigon. Gofyn i'r rhai sy'n gweithio mewn bara garileg, neu gyfranau at y raffi. Nodi bod rhaid cael digon o bowleni, llwyau, syrffets, pupur a halen, llienuiau sychu llestri - o ia - a jwg i godi'r cawl. Diolch byth y mae'r dibynlady Rhodri yn gofalu am y gwin. Bydd raid cael rhywun wrth y drws i dderbyn y llu cefnogwyr - PLIS!

Mae Stondln Sulwyn newydd ddechrau - rhaid craffu - Wnaiff o gynnwys yr hysbys anfonais ato? Mi ryda ni wedi mentro cael Huw Chiswell fel coron y noson - er mwyn denu'r ifanc i'r Parti. 'Rargian fawr - beth petai ugeiniau yn dod - ychwanegu at y rhestr - pcedi o gawl cennin - rhag ofn.

Ia, OFN sydd arnai - sut aiff pethau? Fel arfer mae Parti'r Dinesydd yn hwyliog shambolic gartrefol - ond yr elw fel arfer yn ddigon byciaiin. Petaech yn tynnu'r pwyllgor a'u teuluoedd o'r parti - fe allech roi'r gweddill i eistedd yn gysurus yn y gegin 'ma! Dwi 'di meddwl droeon wrth drefnu achlysur i godi arian - oni fydda hi'n syniad da i hysbysebu noson gwbwl aniddorol - pris mynediad £1 - pris aros adra £3 - choellai byth na wnaen elw sylweddol!

Wel, does fawr mwy i'w ychwanegu, a beth bynnaq mae hi'n bryd imi roi'r cawl drwy'r hylifydd. Meddwl am nifer o gyfeillion y Dinesydd sydd yn yr un cwch a finna, yn morio mewn cawl cennin - pob un ohonnom yn dilyn yr un risait - a lliw pob sosbaniaid bob tro yn wahanol! Ysgwn i beth bydd y frawddeg nesa?

Dranoeth y drin! Wel, be fedrai ddeud? Daeth mwy nag arfer i'r neuadd fechan yn Rhiwbeina ac fe gafwyd noson hwyliog drws ben - digon o fwyd blasus, ymgomio, ac adloniant at ddant pawb. Mari Emlyn

agorodd y noson, am fod 'i mham ar un adeg yn meddwl na fyddai yno yr un diddanwr arall! Pleser pur oedd gwranddo ar Menna Elfyn yn darllen ei barddoniaeth, roedd gwerthiant ei chyfrol ddiweddera yn ystod y noson yn dyst o hynny. Meddwl yn dawel bach, pa argraff gafodd Menna a'i gŵr Wynford o fywyd cymdeithasol Cymraeg Caerdydd?

Yna ucheibwynt y noson - Huw Chiswell - a'i ganeuon sensitif yn adlewyrchu personoliaeth gynnes a hoffus - a phawb o'r hyna i'r fenga wedi'u swyno'n lan. Gyda llaw pan holaib beth oedd ein dyled i'r diddanwyr, yr ateb a gefais oedd "Cymwynas a'r Dinesydd". Diolch yn fawr iddynt.

Tro'r gynulleidfa oedd hi wedyn. Darllenodd Arfon Williams ymdrechion y beirdd i lunio brawddeg a limerig. Brith a hwyliog oedd y cynnyrch a braf oedd clywed chwerthin iach dros y lle. Wrth gloi, diolchaf i'r ffyddloniaid gefnogodd y parti, can mil mwy o ddiolch i'r pwyllgor fu'n ymlafio'n driw yn y gegin fach (ia fach lawn!) wrth y drws, wrth y bar, ac i John Albert am arwain y noson. Gwnaed elw o tua can punt. Da iawn yn wir - ond - prin gost hanner rhifyn o'r Dinesydd yw hynny! Er deud hynny, roedd ysbryd a llwyddiant cymdeithasol y noson yn rhywbeth na ellir rhoi pris arno. Diolch i bawb.

DYRCHAFU TELERI

LLONGYFARCHIADAU i Teleri Bevan ar ei phenodiad yn Bennaeth Rhaglenni BBC Cymru.

Un o Llangwryfon yw Teleri ac ar ôl dyddiau ysgol yn Ardwyn, Aberystwyth a graddio yng Ngholeg Bangor bu'n gweithio am gyfnod fel Trefnydd Clybiau Ffermwyr Ifainc yn Ynys Eilai a Chaergrawnt.

Fe'i penodwyd i'r BBC, gyntaf yn 1955 i Adran y Plant gyda Lorraine Davies ac, ar wahan i chwe mlynedd o ysbaid ar ôl ei phriodas yn 1960 a genedigaeith ei mab, Huw, bu'n gweithio i'r Gorfforaeth byth ers hynny.

Cafodd brofiad o fyd teledu yn ogystal â radio ac mae 'na restr hir o raglenni o'r ddau gyfrwng sy'n gysylltiedig â'i henw fel cynhyrhydd, gohebydd neu gyflwynydd - "Telewele", "Farming in Wales", "Beunydd", "Penigamp" a'r hen ffefryn sy'n dal i fynd "Merched yn Bennaf".

Yn 1978 gwahanwyd y rhaglenni Cymraeg a Saesneg a phenodwyd Teleri yn Olygydd Radio Wales gyda Meirion Edwards yn golygu raglenni Radio Cymru. Fe'i dyrchafwyd flwyddyn cyn sefydlu S4C yn ddirpwy Bennaeth Rhaglenni'r BBC, cyn dod i'w swydd bresennol.

Yn awr mae'n awyddus iawn i weld mwy o weithio ar y cyd â gwledydd eraill i greu raglenni; cafwyd llwyddiant esioes gyda "Singer of the World" ac ar hyn o bryd darlledir "Far from Paradise" (BBC 2, Nos Iau) cyfres am yr amgylchfyd (saith awr o deledu i gyd) a wnaed ar y cyd â'r Eidal, Awstria a'r Almaen. Ei gobaeth yw gweld Cymru'n elwa ar y math yma o gynlluniau. Ac, eleni, mae hynny'n bwysicach nag erioed. Gan fod 1986 yn debyg o fod yn flwyddyn dyngedfennol i'r BBC gyda chyhoeddi adroddiad Peacock yn y gwanwyn mae Teleri'n rhagweld cyfnod o bwysa a mesur effeithiolrwydd y Gorfforaeth gyda'r bwriad o arbed arian a'i defnyddio ble bynnaq bosibl i wella ansawdd rhaglenni yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ac ar 'wella' mae'n rhoi ei bryd. O ofyn iddi grynhoi ei dyheuadau yn ei swydd newydd mae'n dyfynnu deisyfiad pob cynhyrhydd "Gobeithio y bydd rhaglen 'fory yn well na rhaglen ddoe".



Ymddiheuriwn am fethu â chynnwys Colofn y Ser gan Eiry Palfrey oherwydd amgylchiadau nad oedd yn bosibl eu rhagweld! Gallwn sicrhau seryddwr selog y bydd Eiry a'u cholofn yn eu holau y mis nesaf.

GWRTHOD CEFNOGI'R CORFF

MAE CELL Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi derbyn llythyr yn datgan yn swyddogol nad yw Cyngor Sir De Morgannwg yn fodlon cefnogi'r ymgyrch dros gorff annibynnol i ddatblygu addysg Gymraeg. O ganlyniad mae'r Sir yn awr yn cael ei ystyried yn darged i weithredoedd uniongyrchol gan Gymdeithas yr Iaith.

Cychwynodd y gweithredu ar nos Sul Ionawr 5, wrth i aelodau baentio slogannau ar dri o golegau'r Sir. Addurnwyd Coleg Addysg Cyncoed a cholegau Technol Colchester Avenue a Rhymni gyda slogannau yn galw am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.

Dywedodd Steffan Webb, Trefnydd y Gymdeithas yn Ne Cymru, "Mae'r Cyngor Sir o'r farn mai Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru a ddylai wneud y gwaith hwn, ond mewn gwirionedd ni all y Cyd-Bwyllgor wneud dim ynglŷn â'r sector addysg bellach. Does dim modd dilyn cwrs yn y Gymraeg yn un o golegau addysg bellach De Morgannwg a does gan y Cyd-Bwyllgor ddim gallu i ddylanwadu ar y sefyllfa. Bydd Cell Caerdydd yn gwneud pob dim o fewn ei gallu i newid penderfyniad diweddar y cyngor.



"Dwy ddim yn meindio lldyn nhw gael un neu ddau - ond mae nhw'n mynd a Degas!"

BUTH RUTH



MAE'N BAWN Sul oer ag ychydig lawn o drigolion ardal Pontcanna, Canton a Llandaf sydd yn mentro ynghyd am dro hyd gaeau braf Llandaf, a dim ond rhyw dri o blant sydd acw'n mwynhau yr offer chwarae wrth gefn hen le HTV - ond mae gan bob un o'r rhain sy'n mentro allan gi l'w gerdded!

Diogel sy'n mynd â Mryd i heddiw - braf cael cyfle i ddarllen Sulynau (chwedl Emyr Price) cyn cinio, a rhyfeddu at gampau'r holl adar sy'n bwydo wrth fy ffenest adeg yma o'r flwyddyn.

Ar hyn o bryd mae na bedwar titw yn hofran, glanio, bwyta'n farus ac yna stelcian o gwmpas nes daw eu tro eto i gael llond bol o gnau o'r hosan neilon oren a'r potyn metel acw sydd hefyd yn dal rhan o'u dogn wythnosol o gnau - does yna 'run aderyn yn blasu nag yn mwynhau'r grawen cig moch sydd ar eu cyfer - pam tybed?

Cyw Titw Tomos Las (un o fabis eleni) sy'n gwneud campau ar hyn o bryd - yn hongian a'i ben i lawr ond yn dal i fwytal! Mae na Ditu Mawr a Llwyd y Gwrych yn aros eu tro. Tybed ddaw rhen Delor y Cnau heibio heddiw i ddangos ei siap diddorol a'i liwiau braf? Mi glywai'r Deryn Du yn canu o'i lwyfan i lawr ar gangen un o'r coed a dwi'n falch o ddeud nad oes yr un Pioden o gwmpas ar hyn o bryd - er mor hardd ydi o o ran lliw mae'r hen bennill am eu nifer yn fy llethu bob tro. Ar gangen isa un o'r coed yng ngardd drws nesa mae 'na saith Turtur Dorchog a dyna i chi adar diddorol - aderyn digon tebyg o ran maint i golomen ond sydd a hanner coler ddu am ei wddf, dyna pam yr enw arall arny'n nhw debyg, sef Colomen Wyllt. Dyma aderyn cymharol newydd i Ynysoedd Prydain ag a ddaeth yma o gyffiniau Bwlgaria tua 1950. Erbyn 1965 roedden nhw'n bla i'r ffermywyr a'r garddwyr - gan fod cynnyrch y ddau mor flasus debyg. Ac er i'r Durtur Dorchog fy neffro yn blygeiniol yn aml yn y gwanwyn gyda'u swn gyddfodol mae nhw'n werth eu gweld yma yn y ddinas.

Rhyfeddu fyddai'n aml at fel mae'r adar yn mynnu eu lle yma yn y ddinas ag hefyd o gwmpas y traffyrdd. Mi rydan ni drigolion y brifddinas yn ffodus iawn fod sawl gardd a pharc ar ein cyfer i'w mwynhau. Ond chi berchnogion cwn, oes rhaid baeddu'r llwybrau, lawntiau a'r caeau o'n cwmpas lle mae cymaint o blant yn chwarae a phobl yn mwynhau gemau?

TECELA

gan Meurwyn Williams

FYDD DIM posib mynd yn agos at Lanelwedd ar Fai 24 - hynny ydi os nad ydych chi'n perthyn i Deulu Duw. Rwy'n gobeithio eich bod chi ebyn hyn wedi clywed, o leiaf, am yr Wyl Fawr sydd yn cael ei threfnu ar faes y "Roial Welsh" yn Lanelwedd ar y pedwerydd ar hugain o Fai. Dydd Sadwrn yw hwnnw, felly fydd dim esgus gyda neb i beidio mynd yno. Fe allwch chi hyd yn oed fynd a'ch carafan, ac aros am y penwythnos mae'n debyg, ac wedi cyrraedd - wel! Fe fydd pob math o ddiwyddiadau yno - cyfarfodydd, grwpiau trafod, grwpiau gwaith, ac i gloi'r cyfan, oedfa fawr, ac mae'r pregethwr yn "foi o bell" o Dde Affrica, neb llai na'r Esgob Desmond Tutu, Esgob dinas Johannesburg. Ac mae hynny ynddo'i hun yn ddigon o warant y bydd yn werth i chi fynd i Lanelwedd, COFIWCH y dyddiad **TEULU DUW - 24 Mai**.

Yn gysylltiedig â hynny, mae Cyngor Eglwys Cymru wedi darparu pecyn

trafod ar Thema Teulu Duw. A phecyn hynod o werthfawr yw e hefyd; y bwriad yw iddo gael ei ddefnyddio yn ystod tymor y Grawys fel paratoad at yr Wyl yn Lanelwedd. Glywsoch chi amdano? Ydych chi wedi cael gwybod amdano? Os naddo, mae' werth i chi gael gafael arno, a'i ddefnyddio falle fel maes trafod. Fel ma'n digwydd fe fyddwn ninne ar Radio Cymru yn darlledu cyfres o sgwrsiau ar Bore Sul yn ystod y Grawys, fydd yn fras gyd-fynd â'r thema.

Wel nawr, nid hysbysebu gwaith Cyngor Eglwys Cymru yw bwriad y golofn hon, ond atgoffa'n gilydd y gallwn fod yn rhan o ddatlithiad mawr ym mis Mai yn Lanelwedd, ond cyn hynny, er mwyn iddo fod yn ddatlithiad mewn gwirionedd, mae angen i ni baratoi'n hunain, a dyna gymwynas y pecyn. Gyda llaw, fe allwch chi gael pecyn o Gyngor Eglwys Cymru, 21 Heol San Helen, Abertawe.

Gyda llaw, glywsoch chi am gynllun C4C, ie C nid S? Naddo, wel gofynnwch i'ch gweinidog, oherwydd mae Cymorth Cristnogol yn gobeithio codi £40,000 i'w gyfrannu i wledydd tlawd rhwng nawr a'r Pasg. Paratoi yn feddyliol ac yn ymarferol felly a chitve yn rhan o Deulu Duw. Odych chi'n perthyn?

STEDDFOD CASNEWYDD:

Efallai y carai caredigion yr Eisteddfod wybod bod ein cyfeillion yng Nghasnewydd wedi lansio ymgyrch gyfamodi dros bedair blynedd. Dyma sut y gallai'r ymgyrch elwa:

£5 y flwyddyn yn troi yn	£26.60
£10 y flwyddyn yn troi yn	£57.16
£1 y mis yn troi yn	£68.60
£5 y mis yn troi yn	£342.88
£10 y mis yn troi yn	£685.72

I'r ymgyrch lwyddo - rhaid cyfamodi cyn 5 Ebrill. Os am wybodaeth pellach, neu pe garech ymateb - cysyllter â Swyddfa'r Eisteddfod, 10 Park Grove, Caerdydd, CF1 3BN.

CYNHELIR Eisteddfod Sir De Morgannwg ar ddydd Sadwrn 22 Mawrth yn Ysgol Gyfun Glantaf.

Ar hyn o bryd ni ragwelir y bydd angen eisteddfodau cylch, ond adolygir y sefyllfa ar ol derbyn y ffurflenni cais.

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru aelodau yn y sir yw 2 Mawrth 1986.

Bydd y ffurflenni cystadiu ar gael o Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffôn 36201. Yno, hefyd, dyldid eu dychwelyd wedi'u cyfeirio i ysgrifennydd yr eisteddfod.

Y DYDDIAD CAU YW 28 CHWFROR 1986

Alwyn Jones
Swyddog Datblygu

CYFLE I ASTUDIAETH LLAWN-AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 - yn arbennig y rhai a adawodd ysgol yn gynnar - ym meysydd Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Economeg, Athroniaeth, Seicoleg, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Diwydiannol, Cymdeithaseg, Astudiaethau Cymreig, Iaith a Liên Cymru a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y mae cyrsiau biwyddyn ar gael. Arwain cwrs dwy flynedd i Diploma Prifysgol Cymru sydd a'i statws ei hun ac hefyd yn bodloni gofynion derbyniad Prifysgolion a Cholegau Politechnig ac Addysg.

Ceir mynediad drwy cyfweiliad: nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i ymgeiswyr addas.

Ysgrifennwch at y Cofrestrwydd, PB, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd, LL46 2PU, am y prospectws a ffurflen gais.

MENTRO:

Llongyfarchiadau i John Watkin ar ei apwyntiad yn Rheolwr Gyfarwyddwr Enterprises Rhyngwladol Aif Gooding. Bu John ar staff y BBC am flynyddoedd. Dymunwn yn dda iddo yn ei fenter newydd.


Hunangyflogedig? Heb Bensiwn?

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandaf,
Caerdydd, CF5 2QB

BUDDSODDIADAU YSWIRIANT BYWYD PENSIYNAU



AFAL YN TYFU

OS YDYCH yn un o ddarlennwyr y print man ar bethe, tebyg eich bod eisoes yn gwybod am fodolaeth Afal. Fe fyddwch wedi sylwi ar yr enw wrth i'r meddwl grwydro am funud tra'n darllen llyth diweddaraf Gwasg y Brifysgol yn eich gwely a gweld "Cysodwyd gan Afal" wrth droed tudalen yno. Ac os na ddaethoch ar draws yr enw, mae'n siwr i chi ddarllen cynnyrch cysodi Afal yn un o lawlyfrau'r Bwrdd Croeso neu'r Amgueddfa, mewn cylchgrawn fel "Meithrin", hysbyseb yn "Western Mail", neu ar un o docynnau raffl Ysgol Melin Gruffydd.

Cwmni cysodi felly, ac un "modern a chystadleuol" yn ôl yr arwyddair. Mentrails holi ymhellach ynghylch y peiriannau modern hyn a chael stôr o wybodaeth am beiriant yn Afal sy'n gallu derbyn copi a gysodwyd ar brosesydd geiriau mewn swyddfa bell i'w "ymynedd" ei hun, a hynny drwy gysylltiad ffôn; un arall sy'n gallu cynhyrchu tri-chwarter miliwn o lythrennau yr awr; ac un arall sy'n trefnu'r gwaith cysodi yn dudalennau gorffenedig ar sgrin. Row'n i'n ei chael hi'n anodd deall y peth cyntaf am ddirgelion y prosesau hyn, ond gallaf lwyr werthfawrogi cyfraniad peiriant sy'n barod i dderbyn cyfarwyddyd i newid "penderfynnu" i "penderfynu" drwy waith

cyfan ar wasgiad botwm, ac sy'n newid wyneb y teip a ddefnyddiwyd drwy'r gwaith ar wasgiad botwm arall.

Ble felly mae cael gafael ar yr holl



gyfleusterau hyn? Mae Afal bellach wedi symud o'r hen swyddfa yn Grangetown i swyddfeidd newydd yn 99 Heol Woodville, Cathays. Brodor o ardal Llanbedd yw perchennog y cwmni, Elgan Davies, un a ddyssodd ei grefft argraffu gyda'r "Cambrian News" yn Aberystwyth. Ymgartrefodd yng Nghaerdydd gan sefydlu Afal ym 1977, ac ehangu fu hanes Elgan a'r cwmni fyth oddiar hynny. Mae ei allu ym myd busnes a'i afael ar y datblygiadau technolegol yn y maes hwn wedi sicrhau llwyddiant y fenter. Cymry Cymraeg yw dwy o'r cysodwyr - hwythau hefyd o'r Gorllewin yn wreiddiol - ynghyd â merch arall o Gaerdydd. Mhw sy'n cysodi ac yn prysur feistrol pob agwedd ar y grefft. Oedd na ryw dinc anffodlon braidd yn llais Elgan wrth iddo sôn fod Jane wedi meistrolu mewn chwe mis grefft a gymerodd bum mlynedd iddo ef ei dysgu yn yr hen ddull?

Ond i ddod nôl at yr enw, Pam Afal? Doedd y cysylltiad rhwng y ffrwyth â chysodi ddim yn gwbl amlwg i mi a dyma holi Elgan. Roedd e'n reit niwlog ar y pwynt, a dweud y gwir, ond digwyddodd gyfethrio wrth basio mai Afal sy'n ymddangos gyntaf yn y "Yellow Pages". Fel y dywedais i, gwr busnes yw Elgan.

Lowri Morgan.

AU REVOIR AVRIL



AR NOS Fawrth 22 Ionawr yng nghyfarfod o Bwyllgor Sir De Morgannwg Mudiad Ysgolion Meithrin fe anrhydeddwyd Avril Jones am ei gwasanaeth fel Swyddog Datblygu o Ionawr 1978 i Ragfyr 1985.

Yn ystod y blynyddoedd hyn bu'n gweithio'n ddiwyd yn helpu cynnal y cylchoedd newydd nes bod dau ar bymtheg yn y Ddinas a naw yn y Fro. Bu'n aelod o nifer fawr o

bwyllgorau gan sicrhau presenoldeb y mudiad.

Gyda brwdfrydedd heintus trefnodd arddangosfeydd o waith y plant, orymdeithiau trwy Gaerdydd, stondinau a meithrinffeydd mewn Eisteddfodau, picnics, partion Nadolig, cyrsiau i hyfforddi athrawon a chant a mil o bethau eraill. Gwerthodd miloedd o bunnoedd o nwyddau'r mudiad, llyfrau, paent, papur, glud, tocynnau raffl a chardiau Nadolig.

Bu Avril hefyd yn aelod ffyddlon o'r pwyllgor Sir ac yn ddolen gyswilt rhwng y mudiad a'r gwasanaethau cymdeithasol, yr ysgolion Cymraeg a'r swyddfa addysg.

Cyflwynodd cylchoedd y Barri a'r Rhws anrheg i Avril mewn cyngerdd arbennig cyn y Nadolig. Yn ogystal, cyfranodd cylchoedd y sir i gyd at dysteb ac anrheg sef cloc wal o lechi gyda logo'r mudiad wedi'i argraffu arno.

Cyfansoddwyd y pennill canlynol gan Gwilym Roberts, cyn-Gadeirydd Cenedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin:

Wyth mlynedd o wasanaeth yn ôl fy sym I'r mudiad pwysicaf o'r enw M.Y.M. Cribinio'r ardaloedd am blant a'u rhieni.

Er mwyn dyfodol yr iaith, dyna'r stori. Gweithio'n galed a llwyddiant yn dilyn A rhif y disgyblion yn codi'n sydyn. Dyledus ydym i ti a'th amynedd Yn teithio'r Sir yn llawn brwdfrydedd. Diolch o galon o'r Fro ac o'r Ddinas Am geisio dy orau a gwneud sawl cymwynas. Ceisiwn ein gorau i gadw mewn cysylltiad Trwy anfon atat ambell wahoddiad! Felly, hwyl fawr gan bawb yn y sir Gwelwn dy eisiau, mae hynny'n wir!

Diolch yn fawr i Avril a phob hwyl gyda'r gyrfa newydd a chroeso mawr hefyd i'r swyddogion datblygu newydd sef Elaine Pye, Llysfaen, Swyddog y Ddinas a Margaret Knight, Creigiâu, Swyddog y Fro. Pob hwyl yn y gwaith newydd.

Llwyddiant yn creu problem



di-Gymraeg, felly, mae tasg sylwedol gan yr athrawesau i ddatblygu eu hiaith cyn iddyn nhw fynd i'r ysgolion cynradd. Allwch chi helpu?

Os oes gennych chi hanner awr yn sbâr pob wythnos, ac os ydych yn mwynhau cwmni plant bach, efallai y byddech yn ystyried mabwysiadu un o'r cylchoedd. Petaech chi'n mynd i mewn unwaith pob wythnos i chwarae gemau iaith syml, neu i ddweud stori, gallech chi gael effaith sylwedol ar safon iaith y plant di-Gymraeg.

Beth amdani? Bydde ni'n falch iawn i glywed oddiwrthy.

Elaine Pye - Swyddog Datblygu Caerdydd Ffôn: 762232
Margaret Knight - Swyddog Datblygu'r Fro Ffôn: 891353



Arddangosfeydd CHWEFROR

FFOTOGALLERY, 41 Heol Starl Newyn yn Affrica 22 Ion - 22 Chwefror. Lluniau gan Chris Steel-Perkins a Mike Goldwater wedi eu tynnu yn Ethiopia, Tigray, Eritrea, Swdan, Somalia, Chad a Mali. Tystiolaeth unwaith eto o erchyllidau'r newyn a'i effeithiau ar y truan trigollon. Yr elw at Band Aid.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU Prif Adeilad, Parc Cathays, Crefftwy'r Celf Cyfoes Arddangosir gwaith gan dri chrefftw'r yn ystod y mis, John a Joycelyn Pardoe sy'n arbenigo mewn aur a meini gwerthfawr i greu gemwaith a John Ward sydd wedi ymfedydlu yn Nyfed ac yn creu potiau drwy ychwanegu rhigymau o glai wrth ei gilydd.

Tŷ TURNER, Penarth. Artistiaid Prydeinig yn yr Eidal 1920-80 28 Ionawr - 2 Mawrth. Cafodd artistiaid o Ogledd Ewrop gryn ysbrydoliaeth yn yr Eidal ers dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Dangosir yn yr arddangosfa hon fod artistiaid o hyd yn cael eu hudo gan ryfeddodau Rhufain. Arddangosir tua hanner cant o baentladau, dyluniadau, a cherfluniau gan gynnwys gwaith Henry Moore, Barbara Hepworth, Joe Tilson, Evan Uglow, Adrian Berg a Stephen Farthing. Trefnwyd yr arddangosfa gan Goleg Celf Caergaint ac wedi hyn bydd yn symud i'r Eidal.

CHAPTER, Treganna Delweddu o Gymru 8 Chwefror - 29 Mawrth Rhan o'r Wyl ffilmiau, yn cael ei arddangos yn y Concourse. Ffilm a sribedau 8 Chwefror - 8 Mawrth Yn y brif Oriol dangosir enghreifftiau o weithgarwch cynhyrchu ffilm a sribedau. Eisoes wedi ymddangos fel rhan o Wyl Caergwawnt.

LLYFRAU

ADOLYGIAD O GYFRES BYW HEDDIW

SIAPIWCH HI - Eirian Mai

£2.95

YMLACIWCH - Margaret Howells

£2.95

Gwasg y Lolfa

DWI WRTH FY modd â llenyddiaeth brwydr y bloneg. Amhrisiadwy yw'r ysgogiad maent yn ei gynnig i'r gwangalon fel fi gyda'u straeon anhygoel o lwyddiant colli pwysau. Ac er fod gorfwyta nadollgaidd bellach yn ystrydeb ac yn gywilydd yng nghysgod dioddefaint Ethiopia, y mae serch hynny yn ffenomenom Gorllewinol. Croesawn felly lyfr newydd Eirian Mai sy'n un o Gyfres Byw Heddiw gan wasg Y Lolfa, ac sy'n dwyn y teitl SIAPIWCH HI - sy'n bwrsapol er nad yn arbennig o wreiddiol.

Stori wahanol sydd rhwng y cloriau fodd bynnag. Mae yma ymgais o ddifri i gyflwyno pwnc i'osog yr wythdegau. Sut allaf ddweud hynny meddech chi. Wel, darlennwch y bennod gyntaf ac fe welwch nad awdres sy'n siarad drwy'i het sydd yma. Wrth iddi 'sgubo'r Beverly Hills Diet o'r neilltu, gwelir nad yw hon yn colledu unrhyw fath o "fad diet". Mae ôl ei hymchwil yn amlwg wrth iddi gyfeirio at adroddiadau meddygol megis y "Committee on Medical Aspects of Food Policy" i enwi un yn unig. Mewn arddull glir a hyderus fe welwn mai cenhadu bwyta'n iach fel ffordd o fyw a wna:

"Ni chynigir rhyw chwa ddietegol eithafol yn y llyfr hwn."

Symudwn at gorff y llyfr a gwelwn fod yna benodau gan ddietegydd a meddyg proffesiynol, sy'n cynnwys cyfarwyddyd ar fywta'n iach a chynghor ar ffurf cwestiwn ac ateb. Hoffais y syniad o roi geirfa ar ddiwedd pennod, nid gair aml ei ddefnydd yw "cnawdnychiant" wedi'r cyfan. Difyr hefyd yw'r pyttiau "Gair i Gall" yn ogystal â'r bennod sy'n trafod llwyddiant Cymru o bob math i gyrraedd - a chadw at eu pwysau delfrydol. Mae bron i chwarter o'r rheiny, yn ddiddorol iawn, yn ddarlennwyr y Dinesydd.

Ymdrinia gweddill y llyfr â chanllawiau coginio'n iach sy'n canolbwyntio ar ryseitiau lled gyfarwydd heb y braster sy'n arferol gysylltiedig â hwy. Ynanfe geir adran ar gadw'n heini gyda ffotograffau du a gwyn i'w dilyn.

Ni cheir yn y llyfr hwn 'mo "gloss" Slimming Magazine a'i debyg, ond fe geir safon sydd gystal os nad gwel.

Ffordd o fyw yw bwyta'n iach i Margaret Howells hithau hefyd yn ei llyfr "YMLACIWCH". Ond yn wahanol i Eirian Mai, mae Margaret Howells yn diffinio'i hiechyd fel cydbwysedd rhwng y corff, y meddwl a'r ysbryd. Dyma'r ffordd Hollistaidd o fyw, neu'r cyfanwaith, sef athroniaeth sy'n credu yn ein gallu ni'n hunain i oresgyn afiechydon heb ddibynnu ar unrhyw gemegau annaturiol o gwbl. Saif diysrwydd hyn yn y gred fod afiechyd yn aml yn effeithio ar bobl oherwydd eu cyflwr meddwl.

Fe gafwyd llawer o sôn am y pla anelwig ond holl bresennol hwnnw yn ddiweddar sef tyndra. Cred Mrs. Howells fod crynhoad o'r tyndra hwn yn ein byd modern yn arwain at afiechyd, ac felly mai'r "antidote" priodol ar ei gyfer yw ymlacio. I'n helpu'n hunain fe geir nodiadau ar yr hyn ddylem fwyta a'r ymarferion ddylai'r corff ei wneud. Rhaid osgoi caffeine, rhaid ymarfer sut i anadlu'n gywir ac ymarfer safiadau loga, a hynny mewn gwaith a hamdden. Cynghorion yw'r rhain sy'n ddigon cyffredin heddiw. Ond yr hyn sy'n gwneud y llyfr hwn yn

wahanol, ac yn hynod ddiddorol i'r ddarlennwyr yw'r slant grefyddol rhyfeddaf sydd ynddo. Dewisaf yr ansoddair "rhyfeddaf" oherwydd fod yma gyfuniad unigryw o grefyddau Dwyreiniol (Mantra, loga ac yn y blaen), paganiaeth a Christnogaeth. Ystyrier deuoliaeth y cymal hwn er enghraifft:

"... bod yn nes at Y Fam ddaear a'r Crewr ein Duw".

Ond os yw hyn yn anodd ei resymu i ni y mae'n athroniaeth sydd wedi gweithio i'r awdures. Oherwydd ffurwyd ei phrofiad hi i oresgyn iselder ysbryd sydd yma ac i "feithrin y pethau da".

Fe geir diagramau hawdd i'w dilyn drwy'r llyfr, ac fe neultuir bron i hanner cant o dudalennau ar gyfer ymarferion loga. Pwysleisir nad oes rheidrwydd i fod yn berffaith, ac mai'r hyn sy'n bwysig yw gwneud beth sy'n bosib i'r unigolyn.

Fe ganolbwyntia ar y rheol mai bwyta i fyw yr ydym ac nid byw i fwyta. Ffrwyth cyflwr gwael ein nerfau yw gorfwyta yn ei thyb. Nid bwyta'n dda ond lial yn unig ddylem ei wneud, ond dylem hefyd newid ein hagwedd tuag at ein bwyd gan ymlacio dros bryd a gwerthfawrogi pob cegaid yn hamddenol.

Beth yw gwerth hyn oll? Meithrin heddwedd tu fewn a gwneud ein hagwedd at fywyd yn fwy cadarnhaol. Gwraig lwcus yw Margaret Howells. Mae hi wedi cyrraedd at ei heddwch meddwl ei hun. Y peryg, wrth gwr, yw na ellir sicrhau y bydd ei chyfuniad unigryw hi o wahanol athroniaethau yn apelio at bawb. Mae'n werth rhoi cynnig ar yr ymarferion a'r cynghorion bwyta serch hynny. Ac mae'r awdures yn ysgrifennu mewn ffordd sy'n sbarduno diddordeb. Defnyddiol felly yw'r llyfryddiaeth sydd ar ddiwedd y llyfr. Gyda lwc, wedyn, fe ddaw pawb o hyd i'r "heddwch mewol" hwn.

Bethan Sian Lewis.

"Mynd Lawr i'r Nefoedd" - Menna Elfyn
Gwasg Gomer, 1986. £2.95

YN Y GERDD "Ar Ddechrau Blwyddyn Arall" disgrifia Menna Elfyn ei hyn fel

"...annibynreg o dras anghydfurfiol fy ffordd anarchydd cristnogol, o achos y drefn, crynreg tawedog fy ngreddf, ffeministreg cristnogol fy ffydd"

Yn ei phedwaredd gyfrol o farddoniaeth "Mynd Lawr i'r Nefoedd" gwelwn y bardd yn dangos pob agwedd o'r bersonoliaeth hon yn ei dro, mewn cerddi sy'n blesieru eu darllen oherwydd eu bywiogrwydd a'u gonestrwydd. Nid syniadau haniaethol mo ffeministiaeth, gwleidyddiaeth a chrefydd i'r bardd hwn, ond rhan hanfodol o'i bywyd bob dydd a'i chefyddyd, a'r cyfan wedi ei fynegi yma mewn llais barddonol medrus a sicr.

Efalli i "Tro'r Haul Arno" yw "Mynd lawr i'r Nefoedd". Mae teitlau'r ddwy gyfrol wedi eu tynnu o ddywediadau plant, ac mae byd plentyndod yn bwysig iawn yn y ddwy. Mae yma gerddi gofid mam, a cherddi sy'n rhyfeddu at anian yr ifanc. Tebyg iawn yw byd y bardd a byd y plentyn; mae hi'n gwyllo'r:

"...plant unwaith eto'n llefaru yn cymysgu'r ysbrydol a'r bydol, yr allor a siglen bren a'u gwneud yn un. Jest fel cerdd."
("Gyda'r Plant")

Ond, os yw'r bardd yn edrych ar y byd a llygaid plentyn, y mae'r bardd hwn hefyd yn fam, ac yn gorfod cyfuno dwy ddawn greadigol - a dyma yw thema rhai o gerddi mwyaf diddorol y gyfrol. Nid wedi ei chau mewn stafell fach ar ei phen ei hun y bydd y bardd hwn yn cyfansoddi. Daw'r awen "yn sydyn ganol swper" neu

"adeg chwilio ffiws ynghanol y fagddu a'r plant dan draed"

("Bardd Di-Gadair Freichiau 16/4/84")

- sefyllfa wahanol iawn i'r darlun traddodiadol gwrywaidd o'r bardd.

Cerddi gwleidyddol yw rhai o gerddi grymusaf y gyfrol, yn enwedig y rheiny sy'n trafod bygythion i ddyfodol plant y byd. Mae "Can i Reagan" yn ddeifiol o onest, yn wynebu posibilrwydd rhyfel niwcliar a all drawsnewid

"... mam gyffredin
gariadus
gecrus
garcus

fel fi
YN LLOFRUDD."

Mae yma gerddi am Dde'r Affrig ac i wragedd Greenham Common. Er bod daliadau cryf iawn i'w gweld yn y cerddi hyn, nid yw'r bardd yn gor-symleiddio i brofi pwyntiau gwleidyddol. Er enghraifft, wrth deithio ar drên gyda gang o filwyr mae'r "grynreg tawedog ei greddf" yn gwyllo rhodres ymladdol milwyr ifainc - cynrychiolwyr y rhyfelgarwch y mae hi'n ei gasau. Ac eto, mae'r gerdd yn diweddu ar nodyn o dosturi a thynnerch, am fod y nos "mor unig y tu allan" i bob un ohonon.

Nid dwyster di-hiwmor sydd yn y cerddi hyn o bell ffordd. Mae Menna Elfyn yn deal yn iawn sut i ddefnyddio ysgafnder i wneud pwyntiau difrifol. Yn y capel, dychmyga wrthryfel y merched

"... pan wedir un walh eto o'r sedd sy'n rhy fawr i ferched wnaiff y merched aros ar ôl beth am weud gyda'n gilydd, ei lafarganu'n salm newydd neu ei adrodd fel y pwnc:

'Gwrandewch chi, feistri bach, tase Crist yn dod nôl heddi

byse fe'n bendant yn gwneud ei de ei hun,"

Cefais i flas mawr ar y gyfrol hon oherwydd ei hamrywiaeth, ei ffraethineb a'i didwylledd. Byddaf yn ei hail-darlennu, ac yn edrych ymlaen at y llyfr nesaf gan Menna Elfyn.

Gwyneth Lewis.

IESU Ddoe a Heddiw

Cyfres newydd ar S4C
yn dechrau nos Fawrth,
4 Chwefror am 10.00.
Ail-darllediad ar b'nawn
Sul am 4.30.

I gyd-fynd â'r gyfres:



Iesu Ddoe a Heddiw -
Y Llyfr (£4.95)



Iesu Ddoe a Heddiw
LLYFR GWATH

Ac gart o'ch stopu ffordd neu
dwy lloer y bydd neu



TREFADAETH
CRISTNOGOL
CYMRU

Iesu Ddoe a Heddiw - Y Llyfr £4.95

Iesu Ddoe a Heddiw - Pecyn gwaith £9.50

Sicwau yn daladwy i Strata
(Archebion i'w na £5 chad cynwys £1 o ddi ddisbarthu)

Enw

Cyfeirnod

Dychwelyd y lloer i
Trefladaeth Gwmnagol Cymru, PO Box 11, Aberystwyth, Dyfed

mifer

S4C

REBECCA SERIES THREE

NEWYDD YMDANGOS, trwy danysgrifiad yn unig, mai'r drydedd gyfres o'r cylchgrawn codi helynt "Rebecca". Braslunir hanes y cylchgrawn, ei nod a'i ffridiad yn y golofn (olygyddol) a elwir yn "Personol Column":

"So here is Series Three - a completely different animal from either Series One (1973 - 1980) or Series Two (1981 - 82). This time around, there will be a more realistic economic basis to the magazine - the amount of personal subsidy from me (sic) will be reduced and you subscribers will have to pay a fairer share of the burden."

Â'r golygydd dienw (er bod llun ohono uwchben y lliith) rhagddo i draethu, yn rhannol am y modd y cynhyrchir y dwsin dalen a elwir "Rebecca" a'i gynlluniau gogyfer a'i briodas arfaethiedig a'r bwriad o fyw yn Sussex yn yr haf. Ymdrinir a'r cylchgrawn yn gyntaf. Bydd Cyfres 3 yn nifer o adroddiadau/erthyglau a gynhyrchir yn rhad i'w cadw mewn "binder". Calon y cylchgrawn fydd adrannau Anatomy a Muckraker. Yr adran gyntaf hon yn rhoi inni fewnwelediad grafog i'r weinyddiaeth Thatcheriaid yng Nghymru a'r ail adran yn ymdrin â nifer o bynciau penodol e.e. pa fodd y llwyddodd Sainsbury i ddatblygu archfarchnad ar dir Weaver's Mill yn Abertawe. Bydd colofn Gymraeg yn ymddangos yn ogystal â cholofn hel clecs a llythyrau. Rhagflias yn unig, cyfddyf y nodiadau golygyddol, yw rhifyn 1 o'r drydedd gyfres. Er mwyn cynorthwyo a'r gorchwyl o gynhyrchu'r cylchgrawn bydd y golygydd yn dychwelyd trwy dollbyrth Pont Hafren fel bo'r galw.

Mae'n anodd gwybod beth i'w feddwl. Unai mae yma ddeuoliaeth ddychrynilyd neu siniciaeth. A chan nad oes gen i ffrind sy'n ffrind i'r golygydd fe'i caf hi'n anodd i benderfynu. Credaf mai'r argraff a geir o ddarllen y golygyddol yw ymdeimlad o rwystredigaeth a blinder. Gwewyr sydd rhwng y llinellau, rhywun sydd wedi bwrw'i ben yn erbyn y wal ers blynyddoedd, wedi 'laru, blino, troi a throsi, methu dianc o deimlo fod angen cylchgrawn o'r fath ac eto'n gwybod nad oes dim yn newid, neb yn gwrandod etc etc.

Y gwir amdani ydi fod angen cylchgrawn fel "Rebecca" - ond ai hwn yw'r ateb? Dydi ychydig o dudalennau rhyddion, tita ddim yn debygol o ddal sylw neb. A fel pe'r golygydd yn sylweddoli hynny, mae'n annog pobl i wneud photocopiau o'r cylchgrawn a'u didoli ymysg cyfeillion. Cylchgrawn tanddaearol yng ngwir ystyr y gair.

Wn i ddim beth yw'r ateb parthed ariannu ond yn sicr fe ddylai'r cylchgrawn sy'n dadlennu llygredd etc geisio anelu at y cychrediad ehangaf bosib mewn cymdeithas. Cylch cyfyngedig iawn fydd yn ei ddarllen trwy danysgrifiad yn unig. Ac er y gall ddweud pethau hynod o ddiddorol a dadlennol go brin y bydd yn ddigon yn ei ffurf bresennol i fod yn gyrhaeddol iawn ei effaith.

William Owen Roberts.

Rebecca Cyfres 3
Trwy danysgrifiad yn unig. £15 y flwyddyn oddiwrth: Rebecca,
15 Greenfield Avenue, Canton, Caerdydd.



MAE'R MWYAFRIF ohonom yn ymwybodol o'r gwastraff bwyd sy'n digwydd o ganlyniad i bolisi amaeth cyffredinol y Gymuned Ewropeaidd, ac mewn araith ddiweddar cymharodd Michael Montague, Cadeirydd Cenedlaethol Cyngor y Defnyddwyr, y gwastraff yma gyda'r Hadrad o'r tren enwog gan Biggs a'i bartneriaid. Lladratawyd £2.25 miliwn o'r tren ym 1963 ond cyhuddodd Montague "ladron" y Farchnad Gyffredin o ddwyn £1 biliwn oddi wrth ddefnyddwyr Ewrop ym 1985 trwy gadw prisiau bwyd yn uchel i dalu am wenddau'r polisi amaethyddol.

Dyma rai o'r pwyntiau a wnaed gan Montague i gefnogi ei feirniadaeth hallt o'r polisi amaeth. Fe osodir prisiau sefydlog ar gynnyrch y ffermwy'r sy'n cadw prisiau bwyd yn uchel. Mae'r polisi yn gwarantu i brynu cynnyrch oddi wrth ffermwy'r os fydd y prisiau'n cwmpo'n is na'r lleifswm a osodir gan y Gymuned. Fe werthir y gwargedion i wledydd y tu allan i'r Gymuned neu fe'u dinistrio. Golyga hyn bod arian y trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio i gadw prisiau bwyd yn uchel. Mae'r polisi amaeth yn annog ffermwy'r i gynhyrchu bwydydd nad oes eu hangen yn Ewrop am brisiau mae pobl yn methu neu'n gwrthod talu.

O ganlyniad mae gennym fynyddoedd enfawr o laeth a gwin ac ar hyn o bryd mae'r mynydd meny'n ddigon i wneud 4,000 miliwn o bacedi. Er fod Cyngor y Defnyddwyr wedi croesaw'r awgrym i werthu meny'n unwaith eto yn rhatach i bobl ar incwm isel, fe feirnidir hyn am ei fod yn fwy o gimic na dim arall. Yn y diwedd y trethdalwyr sy'n talu: am bob pecyn o fenyn fe fydd trethdalwyr wedi talu sybsidi o 58 centio - er mwyn prynu'r meny'n nad oes ei angen, i'w gadw

mewn stôr ac i roi sybsidi i werthu'r meny'n yn rhad y tu mewn i'r Gymuned Ewropeaidd neu i wledydd y tu allan i'r Gymuned.

Mae mynydd o laeth powdwr sgim hefyd, ond ni fydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio gan drigolion y Gymuned; ceir ei ddefnyddio i fwydo gwartheg a fydd yn cynhyrchu mwy o laeth Gellir dychmygu'r canlyniad! Serch hynny penderfynwyd eleni i godi pris laeth sgim. Ceir tunelli lawer hefyd o gig eidion a grawn. Elroni felly yw'r ffaith fod Ewrop yn methu tyfu digon wenith o'r ansawdd sydd ei angen ar gyfer gwneud bara ac mae'r torth o fara yn costio mwy gan fod y Gymuned yn codi treth ar wenith sy'n cael ei brynu o wledydd (fel Gogledd America) y tu allan i'r Gymuned. Fe roir treth hefyd ar gig oen sy'n cael ei fewnfowlo er nad oes digon o gig oen yn cael ei gynhyrchu yn y Gymuned ar gyfer ein gofynion.

Awgrymir gan y Grwp Defnyddwyr yn y Gymuned Ewropeaidd bod angen diwygio yn selledig ar y chwe phwynt canlynol:

- prisiau cefnogol is ar gyfer pob bwyd sy'n cael ei orgynhyrchu er mwyn sicrhau gwell cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw.
- os oes angen cefnogaeth arbennig ar ffermwy'r dylid rhoi hyn trwy fesurau rhanbarthol a chymdeithasol;
- dylid dileu mesurau i gyfyngu cynhyrchiad;
- dylid gostwng trethi ar fwyd sy'n cael ei fewnfowlo i wledydd y Gymuned er mwyn cwrdd â'n gofynion;
- cael gwared ar bob mesur, e.e. bygythiad o dreth ar olew, sy'n aflunio'r farchnad;
- dylid cynnwys gweinidogion Cylid, Defnyddwyr a Masnach Tramor ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud a pholisi amaeth (ar hyn o bryd mae'r penderfyniadau yn nwylo'r gweinidogion amaeth yn unig) i ddiogelu defnyddwyr, masnach, lefel trethiant, a safle Ewrop ym materion byd-eang.

Os daw newidiadau gobeithio y byddant yn effeithiol ac ddim yn rhy hwyr i wella sefyllfa ffermwy'r a defnyddwyr Cymru.

TARO'R PARED I'R POST GLYWED

YN YSTOD yr wythnosau yn arwain at y Nadolig, bu aelodau Cell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith, yn ôl eu haddewid, yn gweithredu'n uniongyrchol yn erbyn y Swyddfa Bost. Roedd y gweithredu yn ganlyniad i honiad y Swyddfa Bost ei bod yn anghyfreithlon i hysbysebu am rywun sy'n siarad Cymraeg i weithio y tu ol i Gownter Cymraeg: "Ni allwn gyflogi siaradwyr Cymraeg yn arbennig i'r diben hwn oherwydd byddai hynny'n wahaniaethu pendant yn erbyn pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg."

Maent yn defnyddio achos tribiwnlys diwydiannol Bae Colwyn i gyflwynu eu safiad: "... a thanlineilir y pwynt hwn gan achos diweddar cysylltiedig a Chyngor Sir Gwynedd pryd y dyfarnodd y Tribiwnlys Diwydiannol yn erbyn y Cyngor."

Yn ystod y cyfnod o weithredu'n uniongyrchol llwyddwyd i gau'r ddau brif Swyddfa Bost yn y dre Yr Ais a Churchill Way ar un Sadwrn trwy gyfrwng gweithred hollol syml. Ymunodd dros ugain o aelodau'r Gymdeithas â'r ciw gyda'r cwsmeriaid eraill, ac wrth gyrraedd y cownter mynnu siarad Cymraeg. Wrth gwrs, doedd neb yn eu deall, ac arhosodd pob un wrth y cownter gan fynnu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Doedd neb ar gael i wneud hynny, ac felly crewyd anhrefn llwyr. Galwyd ar yr heddlu, ond ni

arestiwyd neb. Dyw mynnu gwasanaeth Cymraeg ddim yn anghyfreithlon hyd yma!

Paentiwyd slogannau ar y swyddfeydd post yng nghanol y dre ac yn y cyffiniau ar sawl achlysur. Pan nad oedd ymyrraeth uniongyrchol ar y gwasanaeth yn y swyddfeydd post, fe'u picedwyd a dosbarthwyd taflenni ac ail-ddechreuwyd y ddeiseb - calonogol oedd y gefnogaeth a gaed gan y di-Gymraeg am gownter Cymraeg.

Meddianwyd prif swyddfa Bwrdd Post Cymru a'r Gororau ddwy waith, Yr ail dro, ar y dydd Llun cyn y Nadolig, bu nifer o aelodau yn y swyddfa am ryw awr cyn siarad a rhai o swyddogion y Bwrdd Post. Daeth yr ymgyrch weithredol i ben am y tro o ganlyniad i addewid y trefnir cyfarfod rhwng dirprwyath o'r Gymdeithas a Mr Potter, Cadeirydd Bwrdd Post Cymru a'r Gororau yn gynnar ym 1986.

Yn y cyfamer gallwch chi ymuno yn yr ymgyrch drwy geisio sicrhau gwasanaeth Cymraeg a mynnu siarad Cymraeg yn y swyddfeydd post.

Mae'r ffaith bod rhaid ymgyrchu unwaith eto am statws i'r iaith Gymraeg a'r hawl sylfaenol i bawb sy'n siarad yr iaith i gael gwasanaeth Cymraeg, yn dangos yn eglur diffygion mawr y ddeddf iaith bresennol. Mae'n dangos hefyd yr angen am Ddeddf iaith newydd a fyddai'n sicrhau statws tellwng i'r Gymraeg.

DELWEDDAU O GYMRU

DELWEDDAU O GYMRU

- Cymru a'r Cymry ar Ffilm.

Gŵyl dair wythnos o sinema, teledu, fideo, a seminarau ynghylch y modd y darluniwyd Cymru a'i phobl. Heb os, dyma'r digwyddiad pwysicaf o'i fath sy'n cynnwys popeth o'r pentrefi glofaol a ramanteiddiwyd yn y 1940au i realiti creulon streic y glowyr, o gomediau Ealing i Superted. Yn y ffilmiau ceir perfformiadau gan nifer o actorion enwoca'r genedl - Richard Burton, Stanley Baker, Sian Phillips, Elizabeth Taylor, Kenneth Griffith, Ivor Novello, Glyn a Donald Houston, Mervyn Johns, Emrys Jones ac eraill. Yn ogystal â hen ffilmiau bydd cyfle i weld a thrafod cynnyrch diwedddara'r diwydiant ffilm yng Nghymru, gan gynnwys premiere ffilm ddiwedddara'r cyfarwyddwr Karl Francis "Boy Soldiers".

Theatr Sherman 16 Chwefror 7.30
The Last Days of Dolwyn

Chapter 1 Chwefror 17 8.00
The Citadel

Chapter 2 Chwefror 17 7.30
Eastern Valley
Today We Live

Chapter 1 Chwefror 18 & 19 8.00
The Stars Look Down

Chapter 2 Chwefror 18 7.30
The Dream that Kicks:
Wales on Film
Cyfle i weld un o bennodau cyfres newydd Claire Pollack ar hanes ffilm yng Nghymru.

Chapter 1 20 & 21 8.00
Fame Is The Spur

Chapter 2 Chwefror. 20 7.30
The Proud Valley
Ffilm enwog Paul Robeson am frwydr cymuned i achub pwll - a ffilm gyntaf Rachel Thomas a fydd yn bresennol i drafod y ffilm a'i gyrfa.

Chapter 2 Chwefror 21 7.30
Blue Scar

Chapter 1 Chwefror 22 8.00
How Green Was My Valley

Chapter 2 Chwefror 22 2.00
Delweddau o Gymru yn Hanes Ffilm
Seminar a thrafodaeth o dan arweiniad Peter Stead a Jeffrey Richards.

Chapter 2 Chwefror 22 7.30
Rumours at Miners Fortnight
The Case For Coal

Chapter 1 Chwefror 23 8.00
The Silent Village

Chapter 2 Chwefror 23 5.00
Sinema cynnar yng Nghymru:
Ffilmiau William Haggart & Ivanhoe

Chapter 2 Chwefror 23 7.30
Ffilmiau John Ormond:
Once There Was a Time
Borrowed Pasture

Chapter 1 Chwefror 24 8.00
The Half-Way House

Chapter 2 Chwefror 24 7.30
Eyeballs Against The Wind
Ffilmiau Byrton

Neuadd Dewi Sant 7.30
Under Milk Wood
Cynhyrchiad enwog Andrew Siclair gyda Richard Burton, Peter O'Toole, Elizabeth Taylor, & Sian Phillips.

Chapter 1 Chwefror 25 8.00
Valley of Song
David

Chapter 1
Chwefror 26 & 27
Un o glasuron comedi Ealing gyda Donald Houston a Meredith Edwards. Bydd Meredith Edwards yn bresennol pan ddangosir y ffilm a bydd yn trafod ei yrfa.

Chapter 2 Chwefror 27 7.30
And Pigs Might Fly
Fersiwn is-deitlledig o'r ffilm Aderyn Papur a ddangoswyd gyntaf ar S4C.

Chapter 1 Chwefror 28 8.00
The Last Days Dolwyn

Chapter 2 Chwefror 28 7.30
Black As Hell, Thick As Grass

Chapter Mawrth 1
Diwrnod Agored

Chapter 1 Mawrth 1 & 2 8.00
Zulu

Chapter 2 Mawrth 1 7.30
Dylan Thomas
Ffilm ddogfennol Jack Howells am fywyd y bardd o Talycharn a ennillodd Oscar iddo ym 1962.
& Our Country



Chapter 2 Mawrth 2 5.00
The Rat

Chapter 2 Mawrth 2 7.30
Yr Alcoholig Lion
Ffilm Karl Francis a ennillodd y Grand Prix yng Ngŵyl Ffilmiau Celtaidd 1985.

Chapter 1 Mawrth 3 8.00
Blind Date

Chapter 2 Mawrth 3 7.30
Ceiber - One of Four
Premiere fideo diwedddaraef gweithdy
Chapter ynghylch y frwydr aflwyddiannus i achub pwll Penrhwi Ceiber yng Nghwm Cynon.

Chapter 2 Mawrth 4 7.30
Cyfle i weld cynnyrch rhai o weithdai fideo Cymru.

Chapter 1 Mawrth 4 8.00
Eva

Chapter 2 Mawrth 5 8.00
Only Two Can Play

Chapter 2 Mawrth 6 7.30
Wil Six
- ffilm gan Paul Turner gyda Meredith Edwards, Dyfan Roberts a Stuart Jones.
Johnny Be Good - cyfle arall i weld ffilm wych Marc Evans.

Chapter 1 Mawrth 6 8.00
Look Back in Anger

Chapter 1 Mawrth 7 8.00
Tiger Bay


Chapter 2 Mawrth 7 7.30
Y Gwaith

Chapter 2 Mawrth 8 2.00
Diwylliant Ffilm i Gymru?
Seminar.

Chapter 1 Mawrth 8 8.00
Under Milk Wood

Chapter 2 Mawrth 8 7.30
Boy Soldiers
Premiere ffilm ddiwedddara Karl Francis sy'n olrhain hanes milwr Cymreig yng ngogledd Iwerddon. Bydd Karl ynghyd ag aelodau'r cast a'r uned ffilm yn bresennol.





AR DRAWS:

1. Trefn sydd ag effaith goleuol. (5)
4. Syniad a gafodd Dafydd am y gweisg. (9)
9. Nid gwir pob stori yn "Lol", ond ewch ati i'w chwilio. (9)
10. Cenhedwyr! (5)
11. Disgynyddion Efa yn crio o'l chwmpas. (6)
12. Rhai dibwyll? (8)
14. Ddaru iti yrru Dafis, Tonna, yn wyllt. (10)
16. Nid yw pŵdin sago yn bell. (4)
19. Mam Colwyn. (4)
20. Wedi ei ddwyrannu yn Asia, gellid meddwl. (10)
22.  (10)
23. Hwre! am fan bell wedi ei gosod yn iawn. (6)
26. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng Pont Nedd a Llanfair. (5)
27. Fe fyddai yn gwynto o roi ei golau ar waith. (9)
28. Merch fy mrawd a phentwr o dopiau'r tatws yn troi yn styfnig. (9)
29. "Dysg i'r _____ seinio cân". (D.Saunders) (5)

I LAWR:

1. Efallai y gellir da o'ch cyflwr ciwyfus. (9)
2. Calon y frawddeg. (1,4)
3. Pigau. (8)
4. Swn Cymraeg ar afon Firenze? (4)
5. Mae'r gyflafan wedi toi yn dipyn o annibendod erbyn hyn. (10)
6. Maent yn chwarae cast. (6)
7. Byddai yn tynnu ei ddillad a'u rhoi yn drefnus ar sgiw 'i dada. (9)
8. Enw'r bardd tal. (5)
13. Cenis yn iach. (10)
15. D'yw un hanner o'r blaned nesaf i mewn byth yn gweld yr haul, felly mae ychydig oriau yng nghanol yr wythnos yn para byth. (3,6)

17. Hwyl gennym oedd llithro ar ia. (9)
18. Fe fu yn werth pedair punt unwaith, ond dim ond tri bellach. (3,5)
21. Pan fo'r fegin yn chwythu, daw'r blaguryn i'r golwg. (6)
22. Yn barod i'r frwydr? (5)
24. Porffor yw ei lliw uwch y Traws. (5)
25. Dolur annisgwyl a gewch gan gyllell os gafaelir ynddi. (4)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 57

AR DRAWS:

1. Y llanc; 4. Cystwyd; 10. Crefft Leah;
11. Atgas; 12 & 13 & 15 & 16 & 18 & 20 & 28. Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bob un o'n holl ddarllenwyr.
23. Brawdle; 26. Iachusol; 29. Turniwyd;
30. Nerco.

I LAWR:

1. Yn codi llu; 2. Abermaw; 3. Cytunwn;
5. Ynghanol Tir Iarll; 6. Tlawd; 7. Ysgol;
8. Ysgol; 9. Mewn gardd neu ddwy; 14. Oedd;
17. Yn slyrio; 19. Wiw; 20. Bochgern;
21. Bostwyr; 22. Sbloet; 24. Amhur;
25. Dellni.

CYSTADLEUAETH RHIF 57:

Derbyniwyd deuddeg cais. Yr oedd man wallau yng nghynigion M.E.D., B.H., Iolo, a B.T. Ond roedd Meinwen Guy, Tecwyn Vaughan Jones, Rhian Williams, Gunston Jones, A.R.R.(Abertawe), John Hughes, J.Lloyd a D.T.T. yn hollol gywir. Ymgais Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Ger-y-Llyn a dynnwyd o'r het, a bydd tocyn llyfr Cymraeg am £5 ar ei ffordd iddi yn fuan.

CYSTADLEUAETH RHIF 58.

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 y mis hwn eto. Rhowch eich enw neu ffugenw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 15 Chwefror.

BETH AM Y DDRAIG DDI-GYMRAEG?

Y DDRAIG ddi-Gymraeg ydy'r unig ffordd i ddisgrifio'r radio lleol yng Nghaerdydd y dyddiau hyn. Mae 'na gyfanswm o dair awr o raglenni Cymraeg yr wythnos. Mae tair awr pob diwrnod ar Sain Abertawe, ac ar un adeg mi oedd 'na ddwy awr a hanner ar CBC. Fe dorwyd y ddarpariaeth honno, "dros dro" chwedl yr IBA, ym 1984 ac ers hynny mae Cell Caerdydd wedi bod yn llythyru a'r IBA a swyddogion CBC/Red Dragon.

Ym 1985 sefydlwyd Ffederasiwn Myfyrwyr Ysgollion Morgannwg gan fyfyrwyr o Giantaf, Llanhari a Rhydfelen. Roedden nhw wedi'u gwylltio gan benderfyniad CBC i wthio'r unig rhaglen Gymraeg i oriau man y bore. Unarddeg o'r gloch nos Sul tan un o'r gloch fore Llun oedd amser darlledu'r rhaglen bryd hynny. Ennillwyd y frwydr benodol honno wrth i Red Dragon gymryd drosodd. Symudwyd y rhaglen yn ôl i'w le ar nos Sul, naw tan unarddeg, a dechreuwyd dwy raglen newydd - hanner awr yr un - ar nosweithiau Mawrth a Gwener.

Er ennill yr un frwydr, siom oedd dyfodiad Red Dragon. Beth ddigwyddodd i addewidion yr IBA? Roedden nhw wedi colli'r cyfle i adfer y rhaglenni Cymraeg a doedd 'na ddim cyfle arall ar y gorwel.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi creu'r cyfle iddynt nawr. Ar ôl i gannoedd o bobl ddanfod cerdiau post yn galw am fwy o raglenni Cymraeg mae cyfarfod wedi'i drefnu am ddydd Iau 13 Chwefror. Bydd 'na gynrychiolaeth o Gell Caerdydd, Ffederasiwn Myfyrwyr Morgannwg, yr IBA ac eraill yn cyfarfod a swyddogion Radio'r Ddraig Goch - gobeithio bydd 'na ganlyniadau pendant yn dod o'r cyfarfod yn hytrach na'r siop siarad yr ydym wedi dioddef dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Steffan Webb.

Gallwch chi gynorthwyo'r Gymdeithas trwy anfon copi o'r llythyr isod at Mike Henfield, Pennaeth Rhaglenni Radio'r Ddraig Goch:

Mike Henfield
Radio'r Ddraig Goch
Tŷ Radio
Blwch Post 221
Caerdydd

Annwyl Syr,

Hoffwn ddatgan fy siom nad ydych wedi gweld yn dda i adfer y rhaglenni Cymraeg a ddarlledwyd yn nyddiau cynnar CBC. Nid wyf yn fodlon ar y ddarpariaeth bresennol a gofynnaf yn garedig i Radio'r Ddraig Goch ei wella cyn gynted a phosibl yn unol a gofynion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

**LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU**



Ar Agor
10.00 - 7.00 (5.00 Sad!)
Ffonwch Eich Archib
CAERDYDD 27530

Cydymdeimlo

COLLED:

Cydymdeimlwn â Owen a Manon Griffiths a'r teulu sydd bellach yn derbyn y Dinesydd trwy'r post ar ôl iddynt symud i fyw ar Ynys Môn. Colodd Owen ei fam a hynny'n fuan iawn ar ôl colli'i dad. Cydymdeimlwn â hwy yn eu profedigaeth ddwbwl.

MARW:

Cydymdeimlwn â Gaenor Maddocks ar ei phrofedigaeth yn ddiweddar o goll ei chwaer.

YN EISIAU:

Y MAE Llyfrgell Dinas Caerdydd yn awyddus i gael casgliad cyflawn o'r Dinesydd. Dyma'r rhifynnau coll:

Tachwedd 1974
Gorffennaf 1975
Hydref 1975
Medi 1976
Rhagfyr 1979
Hydref 1980
Tachwedd 1982
Mehefin 1983
Gorffennaf/Awst 1983
Rhagfyr/Ionawr 1983/4

Os gellwch ddod o hyd i'r ôl rhifynnau hyn cysylltwch a Shan Emlyn, Coed y Pry, Llandennis Avenue, Cyncoed. (751469)

Y mae rhai papurau bro yn paratoi caset i'r deillion yn eu broydd. Tybed faint o alw sydd 'na am wasanaeth tebyg ym mysg Cymry Cymraeg Caerdydd. Carem gael eich ymateb.

TARO'R NODYN:

Llongyfarchiadau i Huw Tregelles Williams ar ei ddyrchafiad i fod yn bennaeth Adran Cerdd y BBC. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

TRI I FYNY:

Llongyfarchiadau i Gareth Price ar ei benodiad yn Rheolwr BBC Cymru yn dilyn dyrchafiad Geraint Stanley Jones i swydd efo'r BBC yn Llundain. Yn dilyn y penodiadau hyn dyrchafwyd Teleri Bevan yn Bennaeth Rhaglenni'r BBC. Ein dymuniadau gorau i'r tri.

CHWAER:

Llongyfarchiadau hefyd i Catrin Gerallt ac Emyr Daniel ar enedigaeth merch - Hannah Fflur ar 20 Ionawr. Pleser deall fod Catrin a Hannah yn holliaeth a bod Mathew Rhys yn hoff o'i chwaer.

BRYSIWCH WELLA:

Dymunwn yn dda i Avril a Meinir Lewis ar ôl i'r ddwy gael llawdriniaeth yr un pryd yn Ysbyty Casgwent.

DYWEDDIO:

Llongyfarchiadau i Mererid Davies a Martin Hopwood ar eu dyweddïad. Mae Mererid yn ferch i Dr. Eurig a Margaret Davies, a Martin yn fab i Eifion ac Owenna Hopwood. Llongyfarchiadau hefyd i Meinir Lewis, merch Eirion ac Avril Lewis, ar ei dyweddïad â Aled Wyn, mab y Parchedig a Mrs. Arwyn Phillips, Rhosllanerchrugog.

CYLCH CINIO GWRAGEDD CAERDYDD

DAETH criw da iawn i Gylch Cinio y Gwragedd fis Ionawr i wrando ar ddarlith gan Roy Saer. Cawsom noson ddifrif a chyfle i wrando ar enghreifftiau gan leisiau sydd wedi ein gadael. Pleser oedd gwrandao ar y diweddar John Thomas ac Emrys Cleaver ac eraill.

Os am ymuno â ni yn ein cinio Gŵyl Ddewi - hynny ar Fawrth yng ngwesty'r Phoenix, Llanishen am 7.30. Yn ein diddori bydd y Parchedig Meurwyn Williams a'i briod Carys. Mae croeso i bawb - nid oes tâl aelodaeth i'r cylch - dim ond dod, talu am y pryd a mwynhau. Os am fanylion pellach cysyllter â Julia Lloyd: 755296.

SYMUD:

Croeso i Winston a Cennin Roddick a'r teulu i'w cartref newydd yn Llandennis Avenue. Braff cynyddu Cymreictod y strydf!

DYRCHAFIAD:

Llongyfarchiadau i Mair Owen ar ei dyrchafiad yn Swyddog Personel i SAC.

BARA CAWS

AM Y TRO cyntaf bydd Theatr Bara Caws yn cyflwyno drama yn hytrach na sioe. Drama gyffrous emosiynol yw CWLWM PUMP a fydd yn olrhain hanes OIwen, Elisabeth a Ken - o ddyddiau Glen Miller hyd at Chubby Checker a'r twist, t llyfra ratiôn, cyfnod "utility", sana sims. Ac yn dilyn i fyny i genhedlaeth newydd - Graham a David - y meibion sy'n gwirioni a'r Sex Pistols. Gwrthdaro a gwrthryfel - ond yn y pen draw mae pawb yn byw dan yr un cwmwl.

Cyfarwyddir y ddrama gan yr actor Robin Griffith. Nid yw gwyneb Robin yn newydd i Bara Caws, ond dyma ei gyfle cyntaf fel cyfarwyddwr. Yr actorion a fydd yn cymeru rhan yn y ddrama ddyngedfennol hon yw Cefin Roberts, Valmai Jones, Bryn Fôn, Siân Meredydd a Phil Reid.

Cychwynodd y daith genedlaethol yn Nghriciecth ar Ionawr 8 a daw i ben yn Neuadd Pentyrch ar Chwefror 7 a Chanolfan Chapter ar Chwefror 8.

Os am

DIWNIWR PIANO

Cysyllter â

Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.

Ffôn: Caerdydd 43367



CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD

YN UNFRYDOL, etholwyd Brian Evans y tir fesurydd yn llywydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd am eleni. Y mae'n olynu John Watkins o Fanc Masnachol Cymru.

Ganed Brian Evans yng Nghaerdydd, ac yma y bu'n byw ag eithrio treulio pum mlynedd yng Nghaernarfon. Y mae'n aelod o'r cylch ers ugain mlynedd, ac yn drysorydd am bymtheg ohonynt. Cymer ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth a diwylliant Cymru. Meddai: "Nid clwb cinio yn unig yw hwn - y mae'n holl aelodau yn ymddiddori ac yn ymboeni am ffyniant yr iaith a chyrrff fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru a'r Dinesydd".

Yn flynnyddol y mae'r cylch yn noddi myfyriwr o un o ysgolion y ddinas i ddilyn cwrs astudiaeth Cymreig, Eleni bwrriad y cylch yw canolbwyntio ar helpu'r Urdd i oresgyn ei thrafferthion. Sefydlwyd y cylch ym 1951 yn un o'r tri cyntaf yng Nghymru. Mae'r cylch yn cyfarfod yn fisol, ganol dydd a gyda'r nos bob yn ail. Ni fu cynnydd yn yr aelodaeth yn y blynyddoedd diwethaf ac fe hoffai'r cylch ddenu mwy o bobl ifanc. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r ysgrifennydd. Dyma'r swyddogion am eleni: Llywydd: Brian Evans
Is-Lywydd: Y Parch. Cynwil Williams
Ysgrifennydd: Gwyn Lewis Davies (756882)
Aelodau'r Pwyllgor: Michael Jones, Ben Thomas a Havard Gregory.



O'R DIWEDD gallwn gynnwys llun o faban yr oeddwn wedi bwriadu ei gynnwys peth amser yn ôl. Llieucu Haf yw ei henw - merch i Linda Evans o Benarth a Martin Roberts o Fethesda a chwaer i Jodi (sy'n mynd i Ysgol Coed y Gof). Fe'i ganwyd ar 27 Hydref yn Ysbyty Dewi Sant. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd!